**Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Solar Porth Wen**
**4pm, Dydd Mercher 23 Mawrth 2022**
**Neuadd Bentref Cemaes**
**COFNODION**
**TERFYNOL**

**Aelodau**

| **Enw** | **Rôl/sefydliad** |
|---|---|
| Angharad Crump | Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyngh. John Griffith | Ward Talybolion |
| Y Cyngh. Aled Morris Jones | Ward Twrcelyn |
| Y Cyngh. Derek Owen | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Y Cyngh. Myrddin Owens | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyngh. Gareth Winston Roberts | Cyngor Tref Amlwch |

**Yn bresennol**

| **Enw** | **Rôl/sefydliad** |
|---|---|
| Y Cyngh. Carys Davies | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Kerry MacPhee | Swyddog Cyswllt Cymunedol, EDF Renewables |
| Gwynfor Owen | Cyfieithydd ar y pryd, Geiriau Gwyn |
| Emma Shortman | Preswylydd Lleol |
| Joe Whitley | Preswylydd Lleol |

**1. Croeso**

Croesawyd y grŵp gan y Cadeirydd Aled Morris Jones

**2. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngh. Liz Wood (Cyngor Tref Amlwch), Debbie Jones (M-Sparc), John Hill (EDF Renewables), Mark Reynolds (EDF Renewables), Naim Baydar (EDF Renewables).

**3. Cofnodion**

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol gan y grŵp

**4. Cylch Gorchwyl**

Mabwysiadodd y grŵp y cylch gorchwyl ar y sail bod y canlynol yn cael eu hychwanegu:

- 1.5: Gofynnodd y grŵp i ni newid i 'Lle bo'n bosibl, gall y cyhoedd gyflwyno cwestiynau cyn cyfarfod GCC.'
- 4.1: Gofynnodd y grŵp i 'Gellir cynnal y cyfarfodydd yn ddwyieithog' gael ei newid i 'Bydd y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ddwyieithog'
- Gofynnodd y grŵp i ni ychwanegu bod EDF Renewables, pan fydd pleidleisio yn digwydd, yn ymatal rhag cynnig pleidlais.

**5. Diweddariad ar y prosiect**

Rhoddodd KMP ddiweddariad yn absenoldeb John Hill:

- Mae'r contractwr Haen 1, Jennings Building and Civil Engineering, wedi dechrau gweithio ar y safle. Dechreuodd y gwaith galluogi ar 9 Mawrth. Mae'r gwaith yn cynnwys paratoi mynediad i'r safle ar y brif ffordd, traciau ar y safle a ffens perimedr.

• Mae Gurpal Basra (sy’n cael ei adnabod fel Baz) wedi'i benodi'n Rheolwr Adeiladu ar gyfer y safle.

• Bu'r ECoW (Clerc Gwaith Ecoleg) ar y safle i oruchwylio'r gwaith o ddymchwel waliau cerrig. Mae hyn bellach wedi'i gwblhau. Bydd yr ECoW yn ôl ar y safle ymhen pythefnos wrth groesi'r cwrs dŵr.

• Mae'r Archeolegydd ar y safle tra bod y pridd ar gyfer y trac yn cael ei dynnu.

• Mae goleuadau traffig yn eu lle ar yr A5025 am bum wythnos ar gyfer cwblhau mynedfa ceg y gloch newydd a man pasio i'r lôn sy'n arwain at y safle. Mae traffig adeiladu yn defnyddio'r lôn i ddosbarthu cerrig ar ffurf llechi Cymreig ar hyn o bryd. Mae mynediad dosbarthu adeiladu i'r safle wedi'i gyfyngu i 07:00 - 18.00, o ddydd Llun i ddydd Gwener.

• Mae CTMP (Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu) ar gyfer cam 2 wedi'i gyflwyno i'w ryddhau ac yn agored i ymgynghoriad cyhoeddus.

• Mae EDF Renewables wedi penodi tri contractiwr Haen 1:

o Jennings Building and Civil Engineering – Contractwyr gwaith galluogi. Mae Jennings wedi dechrau a bydd ar y safle am dri mis yn cwblhau gwaith cam 1.

o Ethical Power Connections – Darparwr Cysylltiad Annibynnol (ICP). Bydd yn dechrau yn dilyn gwaith galluogi.

o Grupotec – contractwr Peirianneg, Caffael ac Adeiladu (EPC). Bydd yn dechrau yn dilyn gwaith galluogi.

• Cynhaliodd EDF Renewables, ar y cyd â phartneriaid lleol Môn CF, frecwast busnes ddydd Mercher 23 Mawrth yng Ngwesty Gadlys. Cyflwynodd y contractwyr haen 1 gyflwyniad i fusnesau lleol ar gyfleoedd arfaethedig am swyddi a chawsant gyfle i gael cyfarfod 1 i 1 yn ystod y digwyddiad. Dilynwyd y digwyddiad hwn gan ffair yrfaoedd a gynhaliwyd gan Môn CF, a fynychwyd gan gontractwyr haen 1 a chynrychiolwyr adeiladu eraill i glywed am gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant pellach ar Ynys Môn. Bydd KMP yn diweddaru'r grŵp ar allbwn o'r digwyddiad yng nghyfarfod nesaf y GCC.

**6. Cronfa Budd Cymunedol (CBC)**

• Awgrymodd y grŵp y dylid defnyddio arian wedi'i glustnodi ar gyfer ysgolion lleol i ddatblygu'r Gymraeg. Roedd pawb yn cytuno a bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach.

• Gofynnodd y grŵp am i gymal gael ei ychwanegu at y gronfa ysgolion a glustnodwyd yn nodi pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cael eu symud neu eu cau, y byddai'r arian yn cael ei ddyfarnu i'r ysgol(ion) sy'n darparu addysg i blant cynghorau Llanbadrig ac Amlwch.

• Gofynnodd y grŵp i RPI gael ei ystyried a chadarnhau hyn erbyn y GCC nesaf

• Awgrymodd y GCC y dylid defnyddio'r £10,000 ychwanegol y flwyddyn at ddibenion helpu pobl ifanc yn eu hardaloedd cyngor priodol i ddechrau neu ddatblygu busnesau bach. Roedd pawb yn cytuno.

**7. Unrhyw Fater Arall**

• Gofynnwyd am aildrafod llinellau terfyn a bod y grŵp yn cael cadarnhad a yw'r prosiect yn gweithredu o fewn Mechell neu'n rhannu ffin yn unig. EDF Renewables i gadarnhau llinellau terfyn.

• Gofynnwyd i'r grŵp ystyried cynrychiolwyr pleidleisio o Fechell a Llanfechell i'r grŵp craidd.

• Mynegodd cynrychiolwyr lleol (ES a JW) eu siom ynghylch y diffyg ymgysylltiad gan unrhyw gynrychiolwyr EDF nad ydynt eto wedi ymweld â'u heiddo sy'n agos iawn at y datblygiad. KMP i ymchwilio a rhoi sylw iddo.

8. **Camau Gweithredu**

- Cylch Gorchwyl wedi'i ddiweddaru i'w gylchredeg er mwyn ei fabwysiadu yn y cyfarfod nesaf.
- Kerry i gadarnhau gwybodaeth am linellau terfyn ac RPI.
- Kerry i roi adborth i EDF Renewables ar ymgysylltu lleol ac adrodd yn ôl i'r grŵp o fewn pythefnos ar sut mae hyn yn cael ei gywiro.
- GCC i benderfynu ar bleidleisio aelodau craidd newydd i'r grŵp

**9. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**

4-6pm dechrau Mehefin 2022 yn Neuadd Bentref Cemaes.